Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru

National Independent Safeguarding Board Wales

**Cyfarfod y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol**

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** 17 Tachwedd 2025 **Amser:** 09.30am Cyfarfod Teams

**Yn bresennol:**

- Tony Young (Cadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Lin Slater (Is-gadeirydd y Bwrdd Cenedlaethol)
- Desmond Mannion (Aelod o'r Bwrdd)
- Artie Meakin (Aelod o'r Bwrdd)
- Dave Street (Aelod o'r Bwrdd)
- Emma Logan (Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd Cenedlaethol)

**Diwrnod Datblygu – Ar-lein**

---

**1. Croeso a chyflwyniadau**

- Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, ac esboniodd fod y cyfarfod wyneb yn wyneb wedi'i ganslo oherwydd y tywydd garw ac oherwydd bod trenau wedi'u canslo o ganlyniad iddo. Yn y dyfodol, argymhellwyd bod y Bwrdd yn cwrdd yn Wrecsam.

---

**2. Adolygu'r rhaglen ddatblygu a'i fformat**

- Cafodd rhaglen arfaethedig y Diwrnod Datblygu ei hadolygu.
- Cytunwyd bod y cynnwys yn rhy werthfawr iddo gael ei gyflwyno ar-lein yn unig, ac y byddai'n fwy addas ar gyfer sesiwn wyneb yn wyneb.
- Penderfynodd y grŵp aildrefnu'r prif ymarferion darlunio a rhyngweithio ar gyfer dyddiad yn y dyfodol, ac roedd yn ffafrio cael digwyddiad wyneb yn wyneb.

### 3. Eitemau busnes

- Cafodd eitemau busnes hanfodol sylw ar-lein.
- Cytunodd y grŵp i fwrw ymlaen i ddyfarnu comisiwn ar gyfer Strategaeth a Chynllun Cyfathrebu i barti allanol.

---

### 4. Hygyrchedd adnodd ar ffurf ffeithlun

- Mynegwyd pryderon am hygyrchedd adnodd allweddol ar ffurf ffeithlun sydd ar wefan y sefydliad.
- Roedd y fersiwn rhyngweithiol ar goll yn dilyn proses symud yn ymwneud â'r wefan, a dim ond ffeil PDF nad yw'n rhyngweithiol oedd ar gael ar hyn o bryd.
- Cytunwyd ar gamau gweithredu i ddod o hyd i'r ffeil wreiddiol a gweithio gyda'r staff perthnasol er mwyn sicrhau bod modd cael mynediad iddi unwaith eto.

---

### 5. Trefnu cyfarfodydd ar gyfer y dyfodol

- Bu'r grŵp yn adolygu dyddiadau posibl er mwyn aildrefnu'r Diwrnod Datblygu, gan ystyried argaeledd y cyfranogwyr ac ymrwymiadau presennol.
- Cafodd sawl dyddiad tua diwedd mis Tachwedd ac ym mis Rhagfyr eu trafod, a nodwyd bod 28 Tachwedd yn opsiwn posibl, yn amodol ar gael cadarnhad gan y prif gyfranogwyr i gyd eu bod ar gael.
- Cafodd dyddiadau ym mis Ionawr eu hystyried hefyd, ac roedd y grŵp yn ffafrio dyddiad yn gynnar yn y flwyddyn newydd os nad oedd mis Tachwedd yn bosibl.
- Trafodwyd yr angen i ddewis lleoliad addas, yn Wrecsam efallai.

---

### 6. Myfyrdodau ac adborth am y gynhadledd

- Cafodd myfyrdodau am y gynhadledd ddiweddar eu rhannu, a oedd yn tynnu sylw at lwyddiant sesiwn y prynhawn a'r prif siaradwr.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd nodi adborth a'r camau nesaf yn dilyn y digwyddiad, a oedd yn cynnwys cael gafael ar fewnbwn o adnoddau cydweithredu a ddefnyddiwyd yn ystod y gynhadledd.
- Trafodwyd y posibilrwydd o gynnal digwyddiad bord gron er mwyn meithrin cyfleoedd i ddysgu gyda'n gilydd ar draws rhanbarthau.

---

**7. Data, profiad go iawn, a naratif**

- Bu’r grŵp yn trafod yr her o gofnodi a chyflwyno profiad go iawn ochr yn ochr â data meintiol mewn gwaith diogelu.
- Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys casglu gwybodaeth yn systematig am gydberthnasau allweddol ym mywydau pobl ifanc, ac integreiddio’r wybodaeth honno mewn adroddiadau.
- Tynnwyd sylw at yr angen am naratif pwerus, sy’n cyfuno data a phrofiad go iawn, ar gyfer y sawl sy’n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau.

---

**8. Adroddiad Blynyddol a’i argymhellion**

- Cafodd cynnydd o ran yr Adroddiad Blynyddol ei adolygu, ac roedd y rhan fwyaf o’r deunydd yn barod ar gyfer y broses olygu derfynol.
- Trafodwyd yr argymhellion a fyddai’n cael eu cynnwys, yn enwedig rhai ynghylch casglu data, dadansoddi data, ac effeithiolrwydd trefniadau diogelu.
- Cytunwyd i ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol cyn llunio’r argymhellion terfynol, yn enwedig yr argymhellion ar gyfer y llywodraeth.

---

**9. Llywodraethiant ac effeithiolrwydd y Bwrdd**

- Yn ystod y cyfarfod, cafwyd trafodaeth fanwl am drefniadau llywodraethiant, aelodaeth y Bwrdd, cyfnodau swyddi, ac annibyniaeth y Bwrdd.
- Pwysleisiwyd yr angen am atebolrwydd clir, adborth strwythuredig gan y llywodraeth, ac adnoddau digonol i gyflawni cylch gorchwyl y Bwrdd.
- Bu’r grŵp yn ystyried y posibilrwydd o gael awdurdod diogelu cenedlaethol, a phwysigrwydd arweinyddiaeth genedlaethol a chyfeiriad strategol.

---

**10. Camau gweithredu a’r camau nesaf**

- Cafodd camau gweithredu eu pennu er mwyn ymdrin â hygyrchedd adnodd, anfon dogfennau allweddol, a chadarnhau dyddiadau a lleoliadau cyfarfodydd.
- Cytunwyd i baratoi ar gyfer cyfarfodydd sydd i ddod â swyddogion y llywodraeth ac i egluro safbwynt y Bwrdd ar faterion allweddol yn ymwneud â llywodraethiant.

- Nodwyd yr angen i gwrdd â'r Comisiynydd Plant a rhanddeiliaid eraill.

---

**11. Unrhyw fater arall**

- Roedd pynciau ychwanegol yn cynnwys trefniadau ymarferol ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, adborth yn dilyn digwyddiadau diweddar, a phwysigrwydd cynnal momentwm mentrau allweddol.

---